

SL(6)071 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021

Cefndir a Diben

Gwneir [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Cyfyngiadau, Teithio Rhyngwladol, Hysbysu a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr\) \(Cymru\) \(Diwygiadau Amrywiol\) 2021](#) ("y Rheoliadau") drwy arfer y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Maent yn diwygio'r rheoliadau a ganlyn:

- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol");
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 ("y Rheoliadau Cyfyngiadau");
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysu) (Cymru) 2010 ("y Rheoliadau Hysbysu"); a
- Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofynion i archebu a chymryd profion am y coronafeirws yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o berson wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio. Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn gwneud darpariaethau penodol ar gyfer "teithwyr rheoliad 2A"; gan gynnwys unigolion sydd wedi eu brechu'n llawn mewn gwledydd a thiriogaethau rhagnodedig.

Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 2A (esemptiadau ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu ac eraill) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, gan estyn y gydnabyddiaeth o frechiadau i ragor o wledydd a thiriogaethau.

Mae rheoliad 4 yn diwygio rheoliad 6AB (gofyniad i archebu a chymryd profion) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn galluogi teithwyr rheoliad 2A i ddefnyddio profion dyfais llif unffordd ("LFD") at ddibenion y Rheoliadau.

Mae rheoliad 6 yn cynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i berson gymryd prawf adwaith cadwynol polymerasau ("PCR") cadarnhau pan fo'n cael canlyniad prawf positif ar brawf LFD, yn ogystal â chynnwys darpariaeth ar ofynion ynysu yn dilyn canlyniadau positif.



Mae rheoliad 8 yn cyflwyno trosedd am fethu â chymryd prawf PCR cadarnhau.

Mae rheoliadau 5, 7 i 9, ac 11 yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chyflwyno profion LFD.

Mae rheoliad 10 yn diwygio Atodlen 1 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i ddileu'r gofyniad i deithwyr restru eu rhifau sedd ar Ffurflenni Lleoli Teithwyr.

Mae personau nad ydynt yn esempt wedi eu gwahardd rhag dod i Gymru pan fônt wedi bod mewn gwlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A (gwledydd a thiriogaethau sy'n ddarostyngedig i fesurau ychwanegol) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol o fewn 10 niwrnod i gyrraedd, yn unol â rheoliad 12E (mesurau ychwanegol sy'n gymwys i bersonau sy'n teithio o wlad neu diriogaeth a restrir yn Atodlen 3A) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae rheoliad 12 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3A er mwyn dileu amrywiol wledydd o'r rhestr o wledydd neu diriogaethau y mae rheoliad 12E yn gymwys iddynt.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Hysbysu, o ganlyniad i gyflwyno profion LFD yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol i sicrhau yr hysbysir lechyd Cyhoeddus Cymru am ganlyniadau profion.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth lechyd y Cyhoedd yn gosod gofynion ar weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol sy'n dod o'r tu allan i'r ardal deithio gyffredin i faes awyr, maes hofrenyddion neu borthladd môr yng Nghymru i ddarparu gwybodaeth iechyd y cyhoedd benodedig i deithwyr. Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth lechyd y Cyhoedd, o ganlyniad i'r diwygiadau o ran Ffurflenni Lleoli Teithwyr a wneir i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn rheoliad 10.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliad 16A(12) o'r Rheoliadau Cyfyngiadau, gan estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau yn y paragraff hwnnw fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID. Mae angen y diwygiad er mwyn cynnal cysondeb â rheoliad 2A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:



1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae llinell gyntaf rheoliad 3 yn cyfeirio at "Reoliad 12", sydd yn anghywir, oherwydd y dylai'r cyfeiriad fod at "Rheoliad 2A".

Rhinweddau: craffu

Nodir y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 29 Hydref 2021.

Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr ynghylch pam bod y rheoliadau hyn yn torri'r rheol 21 diwrnod:

"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hynndod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithiorhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r rclefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

Nodwn hefyd y canlynol yn y Memorandwm Esboniadol:

"Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."

Mae'r Llywodraeth o'r farn nad yw ... Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn



Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. I'rgraddau y gallant o bosibl gyffwrdd ag unrhyw hawliau o'r fath, mae'r Llywodraeth o'rfarn bod yr ymyrraeth yn fach iawn ac y gellir ei chyfiawnhau fel ymyrraethangenrheidiol a chymesur i gyflawni nod dilys. Nid yw'r diwygiadau i ... Reoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd a wneir gan y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y maent yn cyffwrdd â hawliau unigol."

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."

4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r adran yn y Memorandwm Esboniadol sy'n ymdrin â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn cyfeirio at y "Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr". Nid yw'r Rheoliadau'n diwygio'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr, ac fe allai cyfeirio atynt yn y modd hwn arwain at ddrysych ynghylch pwrpas ac effaith y Rheoliadau.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol: Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am roi gwybod am y gwall hwn. Ymdriniwyd â'r gwall hwn drwy slip cywiro.

Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu sylw at y camgymeriadau yn y Memorandwm Esboniadol. Mae'r gwallau hyn wedi cael eu cywiro ac mae'r Memorandwm Esboniadol wedi cael ei dynnu'n ôl a'i ailosod.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 8 Tachwedd 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

